

## CONWAY, CHARLES (1820 - 1884), arlunydd ac ysgythrwr

**Enw:** Charles Conway  
**Dyddiad geni:** 1820  
**Dyddiad marw:** 1884  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** arlunydd ac ysgythrwr  
**Maes gweithgaredd:** Celf a Phensaerniaeth  
**Awdur:** Thomas Mardy Rees

Ganwyd yn Whitehall, gerllaw Pontnewydd, sir Fynwy, 8 Chwefror 1820. Yr oedd yn ŵr amryddawn; heblaw paentio lluniau yr oedd yn medru paentio ar lestri, cerfio, ac ysgythrwr; cafodd ei ysgythriadau yn delio â llên gwerin Cymru wobwr mewn eisteddfod yng Nghaerdydd. Dechreuodd ysgythrwr u cyfres o luniau coed sir Fynwy; yr oedd i'w chyhoeddi o dan yr enw 'Silva Silurica,' ond bu ef farw cyn gorffen y gwaith. Ceir darluniau lliw ac ysgythriadau o'i waith yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

Yr oedd ei nai, yntau'n CHARLES CONWAY, yn paentio mewn dyfiriw ac yn ysgythrwr. Rhoes y ddau eu casgliad llysieuegol i ffurfio cnewyllyn y casgliad yn yr Amgueddfa Genedlaethol. Bu'r ewythr farw 11 Mehefin 1884 yn Pontnewydd House, a chladdwyd ef ym mynwent y Bedyddwyr, Pontrhydryn, sir Fynwy.

### Awdur

**Y Parchedig Thomas Mardy Rees**, (1871 - 1953)

### Ffynonellau

T. M. Rees, *Welsh painters, engravers and sculptors, 1527â€“1911* (1912)

### Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Charles Conway

### Dolenni Ychwanegol

VIAF: 95796581

Wikidata: Q20732691

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Rees, T. M., (1953). CONWAY, CHARLES (1820 - 1884), arlunydd ac ysgythrwr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-CONW-CHA-1820>

Clippwr

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Ysgrifeddiadau  
Llywodraeth Cymru  
Copied by  
Welsh Government